YMCHWILIADAU A GWRANDAWIADAU I ADDASIADAU ARFAETHEDIG
MARRIOTT v YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS YR AMGYLCHEDD, TRAFNIDIAETH A'R RHANBARTHAU

Cyflwyniad

1. Mae'r Nodyn Cyngor hwn yn egluro barn yr Arolygiaeth Gynllunio ar y dyfarniad yn *Marriott v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau*[i] ("Marriot") cyn belled â'i fod wedi penderfynu pa dystiolaeth y gellir gwrando arni mewn ymchwiliad neu wrandawiad a gynhelir o dan baragraff 8(2) Atodlen 15 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981"). Mae'r nodyn hwn ar gael i'r cyhoedd, ond nid oes ganddo unrhyw rym cyfreithiol. Byddai'n well ei ddarllen ar y cyd â chopi o Atodlen 15 Deddf 1981.

Cefndir

2. Caiff grym yr Ysgrifennydd Gwladol/Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gadarnhau, gydag addasiadau, orchmynion a wneir o dan Ran III Deddf 1981 ei gyfyngu gan baragraff 8 Atodlen 15 y Ddeddf honno. Gan siarad yn gyffredinol, mae'n rhaid i hysbysiad o addasiadau arfaethedig sy'n disgyn o fewn unrhyw un o baragraffau 8(1)(a) i (c) gael ei roi a lle y caiff gwrthwynebiadau neu gynrychioliadau a wneir yn briodol eu gwneud iddynt, cyfle i wrandawiad neu ymchwiliad cyhoeddus gael ei roi iddynt. Hefyd, mae'n rhaid ystyried adroddiad y sawl a gafodd ei benodi i gynnal yr ymchwiliad neu'r gwrandawiad. Felly, er enghraifft, ni ellir arfer y grym i gadarnhau gorchymyn gydag addasiad fel ei fod yn effeithio ar dir nad effeithiwyd arno'n wreiddiol gan y gorchymyn, neu ddangos hawl tramwy fel categori gwahanol o hawl tramwy heb gydymffurfio â'r amodau a grybwyllwyd eisoes. Am fwy o wybodaeth, gweler paragraffau 3 i 6 yn Atodlen A Cylchlythyr 2/93 Adran yr Amgylchedd a Chylchlythyr 5/39 y Swyddfa Gymreig.

3. Mae'n amlwg, felly, y gall ambell addasiad naill ai i orchymyn o dan adran 53 neu orchymyn o dan adran 54 Deddf 1981 arwain at y gofyniad am ymchwiliad neu wrandawiad cyhoeddus. Nodir y goblygiad i gynnal ymchwiliad neu wrandawiad ym mharagraff 8(2)(b) Atodlen 15 Deddf 1981. Mae hyn yn ychwanegiad i'r goblygiad a gynhwysir ym mharagraff 7(2) Atodlen 15 i gynnal gwrandawiad neu ymchwiliad i orchmynion a wrthwynebir.

Ffeithiau Marriott

4. Roedd Marriot yn cynnwys her i orchymyn a wnaed o dan adran 54 Deddf 1981 a oedd yn ailddosbarthu nifer o ffyrdd a gaiff eu defnyddio fel llwybrau cyhoeddus ("RUPPs"). Cynhaliwyd yr ymchwiliad cyntaf i'r gorchymyn ym mis Rhagfyr 1995 gyda'r Arolygydd yn casglu y dylid cadarnhau'r gorchymyn ond gyda'r addasiadau y dylid ailddosbarthu dau RUPP fel llwybrau ceffylau ac nid fel cilffyrdd sy'n agored i bob traffig ("BOATs"). Cyhoeddwyd hysbysiad o'r addasiadau arfaethedig yn nodi y dylid anfon "unrhyw gynrychioliad neu wrthwynebiad mewn perthynas â'r addasiadau arfaethedig" at yr Ysgrifennydd Gwladol. Gwnaed nifer o wrthwynebiadau a chynrychioliadau a arweiniodd at ymchwiliad lleol ar ddiwedd 1997, yr oedd yr hysbysiad ohono yn cyfeirio ato fel ymchwiliad "i addasiadau arfaethedig yr Arolygydd". Roedd arweiniad mewnol a ddarparwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn cynghori, pe byddai tystiolaeth newydd yn cael ei chyflwyno yn ymwneud â rhannau o'r gorchymyn na fwriadwyd eu haddasu, yna byddai'n bosibl gwrando ar y

dystiolaeth honno, gyda neu heb seibiant, mewn ymchwiliad a wnaed yn angenrheidiol gan addasiad arfaethedig.

5. Cyflwynwyd tystiolaeth newydd yn ystod ymchwiliad 1997 i sut y dylid, mewn gwirionedd, ailddosbarthu RUPPs eraill nad oeddent yn destun addasiadau arfaethedig. Nododd Sullivan J, y barnwr yn Marriot, y cafodd ymchwiliad 1997 ei drin gan yr Arolygydd fel cyfle i "ailagor Ymchwiliad 1995 yn gyfan gwbl ac ailedrych ar yr holl faterion yr ymdriniwyd â hwy yn ei benderfyniad ym 1996". Canlyniad ymchwiliad 1997 oedd i'r Arolygydd gynnig y dylid ailddosbarthu'r ddau RUPP, a oedd yn destun dau addasiad arfaethedig, fel BOATs ac y dylid ailddosbarthu dau arall fel llwybrau ceffylau yn hytrach nag fel BOATs.

6. Cynhaliwyd trydydd ymchwiliad ym 1999 i'r cynnig i addasu'r gorchymyn er mwyn dangos y ddau RUPP olaf fel llwybrau ceffylau. Nododd hysbysiad yr ymchwiliad mai diben yr ymchwiliad oedd gwrando ar gynrychioliadau ar yr addasiadau arfaethedig. Yn ogystal, nododd "efallai y bydd yr Arolygydd hefyd yn ystyried tystiolaeth a dadleuon newydd mewn perthynas ag unrhyw rannau o'r Gorchymyn nas addaswyd". Cafodd tystiolaeth yn y trydydd ymchwiliad ei glywed nid yn unig ar yr addasiadau arfaethedig ond hefyd ar y RUPPs a oedd wedi bod yn destun yr addasiadau arfaethedig cyntaf ac ar statws RUPPs eraill. Yn y pen-draw, cadarnhawyd y gorchymyn gyda'r addasiad o ddangos un RUPP fel llwybr ceffyl pan oedd wedi cael ei ddangos yn y gorffennol fel BOAT.

7. Cafodd y penderfyniad i gadarnhau'r gorchymyn ei herio ar nifer o seiliau, un ohonynt oedd nad oedd gan yr Arolygydd yn ystod ymchwiliad 1997 unrhyw rym i ystyried y gorchymyn yn ei gyfanrwydd. Cafodd ei bwerau eu cyfyngu i ystyried dau addasiad arfaethedig. O ganlyniad, dadleuwyd nad oedd y cynnig a wnaed ar ôl yr ail ymchwiliad i israddio dau wahanol RUPP i statws llwybr ceffylau o fewn y grymoedd sydd ym mharagraff 8 Atodlen 15 Deddf 1981 a chynhaliwyd y trydydd ymchwiliad heb awdurdodaeth.

Y Dyfarniad – Natur Paragraff 8 Ymchwiliadau a Gwrandawiadau

8. Y man cychwyn ar gyfer Sullivan J oedd y ffaith nad oedd unrhyw rym unigol i gynnal ymchwiliadau lleol i pa un a ddylid cadarnhau gorchymyn o dan adran 54 Deddf 1981 ai peidio. Roedd Adran 54(1) yn gofyn i ymchwiliadau gael eu cynnal yn unol ag Atodlen 15 Deddf 1981. Nid oedd Deddf 1981 yn caniatáu i ymchwiliad o dan baragraff 7(2)(a) gael ei ailagor, mewn achos addasiadau arfaethedig sydd angen ymchwiliad neu wrandawiad – h.y. ymchwiliad i orchymyn yn ei gyfanrwydd. Ymdriniodd strwythur Atodlen 15 ag ymchwiliadau paragraff 8 ar wahân, nid yn unig ym mharagraff 8 ond hefyd ym mharagraffau 9 a 10. Nododd:

> "Mae'n amlwg o dermau is-baragraffau 8(2)(a) a (b) mai ei ddiben [ymchwiliad o dan baragraff 8(2)(a)] yw ystyried "cynrychioliadau neu wrthwynebiadau" (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen yn syml fel gwrthwynebiadau) mewn cysylltiad â'r cynnig, ac mae'r "cynnig" yn golygu cynnig yr Arolygydd i addasu Gorchymyn. Nid ei ddiben yw gwrando ar wrthwynebiadau mewn perthynas â'r rhannau hynny o'r Gorchymyn na fwriedir eu haddasu."

9. Aeth Sullivan J yn ei flaen i gymharu ymchwiliadau a gynhelir o dan baragraffau 7 ac 8. Yn y ddau fath o ymchwiliad, roedd gorfodaeth ar

Arolygydd i ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol na chaiff ei chyfyngu gan dermau'r gwrthwynebiad neu'r cynrychioliadau a ysgogodd yr angen am yr ymchwiliad. Fodd bynnag, er y gallai tystiolaeth yn achos ymchwiliad paragraff 7 ymwneud â theilyngdod gorchymyn yn ei gyfanrwydd, roedd y sefyllfa'n wahanol gydag ymchwiliadau o dan baragraff 8. Yno, mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyfeirio at y "cynnig, ac nid at y rhannau hynny o'r Gorchymyn nad ydynt yn rhan o'r cynnig gan na fwriedir eu newid".

10. Roedd tegwch yn gofyn bod unigolion yn gwybod cwmpas ymchwiliad ymlaen llaw, er mwyn iddynt allu penderfynu a ydynt am fynychu neu sut i baratoi eu hachosion. Nododd Sullivan J:

> "Yn fy marn i, mae geiriad paragraff 8 yn amlwg - mae cwmpas yr ymchwiliad yn gyfyngedig i gynnig yr Arolygydd i addasu. Pe buaswn wedi credu nad oedd iaith Atodlen 5 yn eglur mewn unrhyw ffordd, yna buaswn wedi datrys y diffyg eglurder drwy ddechrau gyda'r cynnig ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r Senedd wedi deddfu gweithdrefn sy'n gynhenid annheg, a fyddai'n llesteirio diben rhoi hysbysiad cyhoeddus o dan baragraff 8(2)(a), yn ogystal â chynnal ymchwiliad o dan baragraff 8(2)(b)".

11. I gloi, gan ei fod yn ymwybodol o'r trafferthion ymarferol, rhoddodd y barnwr beth arweiniad. Derbyniwyd bod awdurdodaeth gynhenid hanfodol i ailagor ymchwiliadau paragraff 7 er budd tegwch. Er enghraifft, ar ôl cau ymchwiliad paragraff 7, os nad yw Arolygydd yn bwriadu gwneud unrhyw addasiadau, ond ei fod wrthi'n paratoi ei benderfyniad ac y cyflwynir tystiolaeth newydd, ni all ddiystyru'r dystiolaeth yn gyfreithlon (yn absenoldeb grym statudol penodol). Mae angen penderfynu ar y ffordd orau i ymdrin â'r dystiolaeth, i benderfynu beth sydd ei angen er tegwch:

> "Mewn rhai achosion, yr unig lwybr teg i'w ddilyn fyddai ailagor yr ymchwiliad paragraff 7, ar ôl rhoi hysbysiad digonol i'r partïon. Mewn achosion eraill, gall fod yn briodol ymdrin â thystiolaeth newydd drwy gyfnewid cynrychioliadau ysgrifenedig rhwng y partïon. Ar y llaw arall, gallai'r Arolygydd gredu bod y dystiolaeth newydd mor ddibwys fel na fyddai'n effeithio ar ei benderfyniad, felly nid oedd angen gwahodd sylwadau gan y partïon, naill ai yn ysgrifenedig neu mewn ymchwiliad wedi'i ailagor."

12. Aeth Sullivan J yn ei flaen gan wneud sylwadau ar y sefyllfa ble mae Arolygydd yn cynnal ymchwiliad paragraff 8 a phan gaiff tystiolaeth ei chyflwyno nad yw'n cyfeirio at y cynigion i addasu'r gorchymyn. Y ffodd gywir i Arolygydd ymdrin â sefyllfa o'r fath fyddai hysbysu'r partïon na all ystyried y dystiolaeth yng nghyd-destun ymchwiliad paragraff 8. Ni fyddai'r dystiolaeth, na'r ymchwiliad yn gyfyngedig i edrych ar y cynnig i addasu. Fodd bynnag, dylid gwahodd y parti i nodi'r wybodaeth newydd ar bapur a byddai'n cael ei thrin fel cynrychioliadau hwyr a dderbyniwyd ar ôl cau ymchwiliad paragraff 7.

Y Dyfarniad – Ymhelaethu ar *Gyfarfod Plwyf Lasham v Cyngor Sir Hampshire*

13. Wrth ddod i'w gasgliadau ar yr awdurdodaeth i wrando ar dystiolaeth o dan baragraff 8, cafodd Sullivan J hefyd achos i gyfeirio at achos *Cyfarfod Plwyf Lasham v Cyngor Sir Hampshire*[ii].

14. Dim ond pe byddai unrhyw wrthwynebiadau neu gynrychioliadau yn "cael eu gwneud yn briodol" y byddai ymchwiliad neu wrandawiad o dan baragraff 8 yn ofynnol. Nid oedd hyn yn gofyn i'r seiliau gael eu nodi fel y penderfynwyd yn achos Lasham. Fodd bynnag, aeth Sullivan J ymlaen i ychwanegu bod yn rhaid i wrthwynebiad neu gynrychioliad fod:

> …"mewn perthynas â'r cynnig" [i'r Arolygydd addasu'r gorchymyn]. Os yw'n wrthwynebiad mewn perthynas â rhyw fater arall, gan gynnwys gwrthwynebiad mewn perthynas â'r rhannau hynny o'r Gorchymyn na fwriedir eu newid, ni fydd wedi cael ei wneud yn briodol o dan baragraff 8(2)(a) ac ni fydd angen cynnal ymchwiliad o dan baragraff 8(2)(b). Os mai dyna'r achos, byddai'n syndod pe gallai'r sawl a wnaeth y gwrthwynebiad cyntaf dim ond oherwydd bod ymchwiliad o dan baragraff 8(2) wedi dod yn angenrheidiol gan i ail wrthwynebiad gael ei wneud yn briodol, fynnu bod yr Arolygydd yn gwrando ar ei wrthwynebiad yn yr ymchwiliad paragraff 8 mewn perthynas â'r mater arall.

<u>Goblygiadau Ymarferol</u>

15. Mae'r dyfarniad, er ei fod yn cyfeirio at orchymyn o dan adran 54 Deddf 1981, gan ei fod yn ymdrin â'r ymagwedd gywir o dan Atodlen 15 Deddf 1981, hefyd yn nodi'r weithdrefn briodol i'w mabwysiadu mewn perthynas â chadarnhau gorchmynion a wnaed o dan adran 53(2) Deddf 1981.

16. Trwy gydweddiad, dylid mabwysiadu'r ymagwedd hon hefyd mewn perthynas ag ymchwiliadau a gwrandawiadau a gynhelir o dan baragraff 2(3) Atodlen 6 Deddf Priffyrdd 1980 a pharagraff 3(6) Atodlen 14 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

17. Mae'r goblygiadau ymarferol, neu'r amrywiol sefyllfaoedd a allai godi ar ôl i addasiad arfaethedig gael ei hysbysebu, yn ymddangos fel a ganlyn:

(i) Lle y caiff goblygiadau neu gynrychioliadau eu gwneud sydd dim ond yn cyfeirio at yr addasiad arfaethedig

Mae gan y rhai sy'n gwneud gwrthwynebiadau neu gynrychioliadau o'r fath yr hawl i gael eu clywed (mewn ymchwiliad neu wrandawiad cyhoeddus), os ydynt yn dymuno arfer yr hawl hon. Ar rai achlysuron, gall fod yn bosibl parhau â phenderfyniad terfynol yr Arolygydd ar sail y cynrychioliadau ysgrifenedig os bydd y partïon yn caniatáu.

(ii) Lle y caiff tystiolaeth ei chyflwyno neu y caiff cyflwyniadau eu gwneud mewn ail ymchwiliad[iii] neu wrandawiad, nad ydynt yn cyfeirio at yr addasiad arfaethedig

Os bydd unrhyw un yn gofyn i gael rhoi tystiolaeth sy'n cyfeirio at ran nas addaswyd o'r gorchymyn, ni ddylai'r Arolygydd ei chlywed yn ystod yr ail ymchwiliad. Yn hytrach, dylai ef/hi eu cynghori i nodi'r dystiolaeth ar bapur a'i chyflwyno gerbron yr Arolygiaeth Gynllunio (o fewn terfyn amser rhesymol) a pharhau i glywed y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r addasiad arfaethedig.

Os caiff tystiolaeth newydd sy'n cyfeirio at ran o'r Gorchymyn nad yw wedi'i addasu ei chyflwyno, bydd yr Arolygydd yn penderfynu sut y dylid ymdrin â'r

dystiolaeth newydd yn briodol a allai arwain, er enghraifft, at ailagor yr ymchwiliad gwreiddiol. [iv]

(iii) Lle y mae cymysgedd o wrthwynebiadau neu gynrychioliadau lle y mae rhai ohonynt yn cyfeirio at yr addasiad arfaethedig ond nid eraill

Yn dibynnu ar y materion a godwyd, gall fod yn angenrheidiol cynnal ymchwiliad ar y cyd i rannau o'r Gorchymyn sydd wedi cael eu haddasu ac i'r rhannau hynny nad ydynt wedi cael eu haddasu.

(iv) Lle nad oes gwrthwynebiadau neu gynrychioliadau nad ydynt yn cyfeirio at yr addasiad arfaethedig

Bydd yr Arolygydd yn ystyried pa gamau sy'n briodol i'w cymryd – hynny yw, a ddylid ailagor yr ymchwiliad neu'r gwrandawiad gwreiddiol, ymdrin â'r mater trwy gyfrwng cynrychioliadau ysgrifenedig neu wahodd unrhyw sylwadau pellach.

---

[i] *(heb ei adrodd) (10 Hydref 2000)*
[ii] *Cyfarfod Plwyf Lasham v Cyngor Sir Hampshire (1992) 65 P a CR 331.*
[iii] Delir o dan baragraff 8(2) Atodlen 15 Deddf Bwyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981; paragraff 2(3) Atodlen 6 Deddf Priffyrdd 1980; a pharagraff 3(6) Atodlen 14 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
[iv] Delir o dan baragraff 7(2) Atodlen 15 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad; paragraff 2(2) Atodlen 6 Deddf Priffyrdd 1980; a pharagraff 3(3) Atodlen 14 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.